Rhif 4 Hydref 1993 25c

# Heddwch

NEWYDDION GWEITHREDU cylchgrawn CND Cymru

# Trident ar Drai




■ **Rali dros Fyd Di-Niwclear** Llundain Hydref 9

Mae pobl ymhobman yn dechrau sylweddoli BOD Trident yn ddiddefnydd ac yn wastraff adnoddau. Mae ffurfwyr barn yn dechrau codi eu lleisiau, gan gwestiynu cymhelliant y llywodraeth Brydeinig dros ddefnyddio'r darn hwn o weddillion y Rhyfel Oer.

Ond nid dim ond oherwydd y cynnydd anferth yn arfogaeth Prydain a gynrychiolir ganddo y mae Trident yn beryglus. Mae Trident hyd yn oed yn fwy peryglus na hynny. Mae Trident yn torri ymrwymiad Prydain o dan Erthygl VI o'r Cytundeb Gwrth-Ledaeniad i 'geisio negydu yn ddidwyll fesurau effeithiol parthed diweddu'r ras arfau ar ddyddiad buan a pharthed diarfogi niwclear, ac am gytundeb ar ddiarfogi cyffredinol a llwyr.' Gyda'r Cytundeb i'w adolygu ym 1995, gallai methiant Prydain i ymuno â'r trafodaethau ar ostwng nifer arfau niwclear ddifetha'r Cytundeb a hybu lledaenaid niwclear.

## TRIDENT – Oes arnoch CHI ei Eisiau?

Gall barn y cyhoedd effeithio ar bethau. DYMA'r adeg i ni WEITHREDU drwy fynd allan i'r priffyrdd a'r caeau a gofyn i bobl i bleidleisio. Os ydych yn aelod o Ieuenctid/Myfyrwyr CND, pam na chynhaliwch bleidlais yn eich ysgol neu'ch coleg? Nid yw rhedeg pleidlais ar y stryd yn gofyn llawer o bobl na llawer o drefnu o flaen llaw . . . ond gall y canlyniadau wneud stori dda i'r cyfryngau lleol.

***Os carech wybodaeth yngln â threfnu pleidlais/ model o ddatganiad i'r wasg/ffurflenni pleidleisio, cysylltwch â Mary Jones ar 0792 774687.***

Mae'r ymgyrch i ledaenu neges CND ledled Cymru wedi cychwyn o ddifri. Bydd ein harddangosfa bosteri newydd, taflenni, sticeri a balwns yn addurno llyfrgelloedd ledled Cymru o nawr tan yr haf (neu efallai'n hwy!). Mae'r arddangosfa'n cynnwys wyth poster sgleiniog A2 dwyieithog.

## Canolfannau Llyfrgell

### Gorllewin Morgannwg

*Hydref 11eg-29ain* Gorseinon
*Tachwedd 1af-19eg* Sandfields
*Tachwedd 22ain-Rhagfyr 10fed* Treforys
*Ionawr 31ain-Chwefror 18fed* Llyfrgell Ganolog Abertawe

### Morgannwg Ganol

*Ionawr 10fed-28ain* Penybont (yna ar daith o gwmpas y sir hyd ddiwedd mis Mehefin, diolch i'r Adran Lyfrgelloedd)

### De Morgannwg


*Ionawr 4ydd-21ain* Llyfrgell Ganolog Caerdydd (mae negydu ar y gweill ar gyfer y Rhath, Treganna, Yr Eglwys Newydd, Y Tyllgoed, Rhydypennau, Penarth, Y Barri a Dinas Powys, ond ni phennwyd dyddiadau hyd yma).

**Mae *Gwent* a *Dyfed* wedi ymateb i'n cais ond ni threfnwyd canolfannau na dyddiadau pendant hyd yma.**

Nid yw *Powys, Gwynedd* na *Chlwyd* wedi ymateb. Beth am i rywun eu hatgoffa ...? **Dim ond at Lyfrgellwyr Sirol y mae CND Cymru wedi ysgrifennu hyd yma, ond nid y Cyngor Sir sy'n rhedeg pob llyfrgell. Os gellwch chi gael yr arddangosfa i mewn i lyfrgell yn eich cylch chi, carem glywed gennych. Astudiwch y rhestr uchod, ac os nad oes canolfan yn eich cylch chi ac fe hoffech un,**

***Mae CND Cymru yn gweithio dros heddwch a diarfogi rhyngwladol a byd lle mae'r adnoddau anferth a ddefnyddir ar hyn o bryd i ddibenion milwrol wedi eu hailgyfeirio i ateb gwir anghenion y ddynolryw***

# PLWTONIWM & LLEDAENIAD




**Mae pob adweithydd niwclear yn cynhyrchu plwtoniwm yn ei danwydd hesb. Os gwahanir y plwtoniwm hwn drwy ailbrosesu, gellir ei ddefnyddio i wneud arf niwclear sylfaenol neu fom-A. Os defnyddir y plwtoniwm ar y cyd ag wraniwm wedi ei gyfoethogi'n fawr iawn, gellir sicrhau mwy o rym ffrwydrol i fas penodol o ddeunydd ymholltus. Os cynyddir y grym ffrwydrol drwy adwaith tritiwm-dewteriwm, yna cynhyrchir bom thermo-niwclear, neu fom-H.**

Mewn adweithydd niwclear, trawsffurfir yr isotop wraniwm 238 yn blwtoniwm 239 o ganlyniad i amsugniad niwtronau. Yn raddol, trawsffurfir peth o'r plwtoniwm 239 yn ei dro yn blwtoniwm 240 drwy ddaliad niwtronau. Po hwya yn gweithreda'r adweithydd, mwyaf oll o wraniwm 238 a drawsffurfir yn blwtoniwm 239 a mwyaf oll o blwtoniwm 240 fydd yn crynhoi hefyd.

Mae'n well gan yr awdurdodau milwrol eu plwtoniwm 239 yn gymharol rydd o'r isotop 240 a felly tuedda cylchred adweithyddion milwrol fod yn fyr. Mae cynhyrchu pwer yn economaidd, fodd bynnag, yn gofyn cylchred adweithydd hwy. Mewn cylchoedd swyddogol, gan hynny, gwahaniaethir rhwng plwtoniwm graddfa arfau (yn cynnwys llai na 7% Pu 240), plwtoniwm graddfa tanwydd (yn cynnwys 7-19% Pu 240) a phlwtoniwm graddfa adweithydd (yn cynnwys mwy na 19% Pu 240). Weithiau bydd rhai cyrff, megis BNFL, yn defnyddio'r gwahaniaeth hwn i gyfleu'r argraff nad yw plwtoniwm graddfa adweithydd yn addas ar gyfer gwneuthur bomiau. Rhaid cofio, fodd bynnag, bod y gwahaniaeth yn cyfeirio at sut y gweithredwyd cylchred tanwydd yr adweithydd, ac nid addasrwydd y plwtoniwm a gynhyrchwyd yn ei sgîl at wneuthur arfau. Gellir defnyddio pob graddfa o blwtoniwm i wneud bomiau niwclear.

Ym mis Ebrill 1992, mewn anerchiad i Fforwm Diwydiant Atomig Siapan, dywedodd William J. Dircks, Dirprwy Gyfarwyddydd Cyffredinol yr Asianiaeth Ynni Atomig Ryngwladol (AYAR):

'Mae'r gwarged plwtoniwm ymholltus o raglenni niwclear sifil yn peri problem wleidyddol a diogelwch fyd-eang, a thra nad yw plwtoniwm o adweithyddion pwer yn ddelfrydol at wneuthur arfau, gellir, serch hynny, ei ddefnyddio i'r diben hwnnw.'

Yn gynharach, ysgrifennodd y Comisiynydd Rheolaeth Niwclear Americanaidd, Victor Gilinsky:

'Cyn belled ag y mae plwtoniwm graddfa adweithydd yn y cwestiwn, y ffaith amdani yw ei bod hi'n bosibl defnyddio'r deunydd hwn ar gyfer ergydion niwclear ar bob lefel o soffistigrwydd technegol . . . Wrth gwrs, lle defnyddir plwtoniwm graddfa adweithydd, efallai y bydd anfanteision perfformiad a all fod yn sylweddol neu'n ddibwys, gan ddibynnu ar ddyluniad yr arf. Ond bellach, pa beth bynnag a dybiasom cynt, gwyddom yn awr y gellir dibynnu ar hyd yn oed ddyluniadau syml, er gwaethaf peth ansicrwydd yn y ffrwydrad a gynhyrchir ganddynt, i weithredu fel arfau effeithiol pwerus dros ben o fewn yr ystod ciloton.'

Erbyn diwedd 1990, cawsai rhyw 650 tunnell fetrig o blwtoniwm ei ddihysbyddu o adweithyddion ynni niwclear y byd. Ailbroseswyd rhyw 120 tunnell o hwn a'i wahanu. Erbyn y flwyddyn 2000, os gwireddir y cynlluniau ailbrosesu cyfredol (gan gynnwys agor THORP) gallai'r cyfanswm hwn gynyddu i ryw 300 tunnell ac erbyn 2010, i ryw 420 tyunnell. Caiff rhyw 70 tunnell fetrig o'r plwtoniwm hwn ei storio yn Sellafield.

At hynny, esgorir ar ryw 200 tunnell fetrig o blwtoniwm o ddatgymalu taflegrau niwclear o Rwsia a'r Unol Daleithau o dan y broses START.

Bydd gan gynnydd ar y fath raddfa ym maint y pentwr plwtoniwm a wahanwyd oblygiadau difrifol o safbwynt rheolaeth dros y deunydd peryglus hwn. Erbyn diwedd y 1990au, gallai THORP fod yn gwahanu rhyw 55 tunnell fetrig o blwtoniwm y flwyddyn, gyda chyfanswm o ryw 40-50 tunnell i'w dychwelyd i gwsmeriaid tramor yn ystod y deng mlynedd cyntaf o weithredu. Mae hynny'n ddigon ar gyfer rhai miloedd o fomiau niwclear.

Mae bygythiad plwtoniwm wedi ei ailbrosesu o safbwynt lledaeniad arfau niwclear yn ei amlygu ei hun mewn amryw ffyrdd. Gall plwtoniwm gael ei ddargyfeirio neu ei ddwyn yn ystod ailbrosesu. Gellid ei herwgipio gan frawychwyr a gefnogir gan wladwriaeth neilltuol neu grwpiau brawychwyr is-genedlaethol ar y siwrnai yn ôl i'r wlad y deilliodd ohoni. Pan fydd wedi ei ddychwelyd, gellid ei ddargyfeirio gan y wlad sy'n ei dderbyn. Neu gallai gyfrannu tuag at ledaeniad cudd, sefyllfa lle bydd y wlad sy'n derbyn y deunydd yn crynhoi'r holl ddefnyddiau angenrheidiol gan roi iddi'r dewis o fynd yn niwclear rywbryd yn y dyfodol. A beth bynnag yr haera'r wlad yw ei bwriad, bydd y plwtoniwm a ddychwelir iddi yn sicr o effeithio ar y sefyllfa wleidyddol/strategol yn y rhanbarth hwnnw. Er enghraifft, mae'n fwriad gan Siapan grynhoi pentwr o 85 tunnell fetrig o blwtoniwm erbyn y flwyddyn 2010, llawer mwy nag y gallai ei ddefnyddio i ddibenion cynhyrchu ynni niwclear. Beth ddylai Tsieina, Rwsia,

## Darllen Pellach

**The Plutonium Legacy: Nuclear Proliferation Out of Control?** gan Frank Barnaby, Adroddiad Penderfyniadau Cyfoes 12, Grŵp Ymchwil Rhydychen, 32 Warnborough Rd., Rhydychen OX2 6JA. Pris £10 yn cynnwys cludiant.

**Plutonium, Proliferation, Terrorism** gan David Lowry a Paul Helliwell, WBMG Environmental Communications, Suite 610-11, Linen

Gogledd a De Korea, sydd oll yn gymdogion, ei feddwl am hynny?

Dim ond swm cymharol fychan o blwtoniwm sydd ei angen er creu bom, ac mae'r wybodaeth dechnegol angenrheidiol ar gael mewn llenyddiaeth agored. Yn wir, gwyddys i nifer o fyfyrwyr yn yr UD ddylunio arfau gweithredol fel rhan o'u cwrs prifysgol – fel arfer, dynodwyd y dyluniadau'n gyfrinachol gan yr awdurdodau, a'u rhoi dan glo.

Daeth y Swyddfa Asesu Technoleg sydd yn cynghori Cyngres yr UD i'r casgliad mewn adroddiad o'r enw *Nuclear Proliferation & Safeguards*, a ysgrifennwyd cyhyd yn ôl â 1977, y gallai:

'Grŵp bychan o bobl, na chafodd yr un ohonynt erioed weld y llenyddiaeth gyfrinachol, o bosib ddylunio ac adeiladu dyfais ffrwydrol niwclear amrwd. Ni fyddai arnynt angen llawer o offer technolegol o anghenraid, ac ni fyddai rhaid iddynt ymgymryd ag unrhyw arbrofion. Dim ond cyfleusterau gweithdy peiriannau diymhongar . . . fyddai arnynt eu hangen.'

Yng ngoleuni peryglon twf arfaethedig stociau o blwtoniwm wedi eu gwahanu, mae'r adroddiad a gyhoeddwyd gan y llywodraeth ar ailbrosesu a THORP, fel rhan o'r ymgais ddiweddar i ymgynghori, yn ddifater, yn ddiofal, ac yn gywilyddus – gan gyfeirio at y gwladwriaethau a fydd yn gwsmeriaid i THORP, dywed:

'er mor annhebyg hynny, pe digwyddai i gymeriad cwsmeriaid gwladwriaethol THORP newid . . . nid presenoldeb neu absenoldeb plwtoniwm o THORP yn eu tiriogaeth fydda'r ffactor hanfodol . . . Fel gwladwriaethau diwydiannol datblygedig mae ganddynt y gallu diymwad, pe dymunent hynny, i gynhyrchu a gwahanu eu plwtoniwm eu hunain.'

Ni ellir disgrifio'r datganiad hwn fel dim amgen na'r llywodraeth yn llwyr esgeuluso ei gyfrifoldebau i'r to hwn a'r nesaf.

*Dave Andrews*

(Ymddiheurad: Yn yr erthygl ar Ynni Niwclear ac Arfau Niwclear (Heddwch Haf 1993) dywedais, drwy ryw amryfusedd, yr ailbroseswyd plwtoniwm ar gyfer ffrwydrad heddychlon India ym 1974 yn Tarapur – dylasai hynny fod wedi dweud Trombay.)

## Dewch i ymuno â ni

Carwn ymuno â'r Ymgyrch dros Ddiarfogi Niwclear

Enw ______________________

Cyfeiriad ______________________

______________________ Côd Post ______________________

Ffôn ______________________

Amgaeaf siec/AB am £________ yn daladwy i CND Cymru. Pâr £15 Oedolyn £10 Digyflog, pensiynwyr, myfyrwyr, ieuenctid £3 (noder pa gategori, os g, yn dda). Dychweler i CND Cymru, Y Siop Heddwch, 56 Mackintosh Place, Caerdydd CF2 4RQ.

# Gwyliadwraeth SAA Llanisien Eu gwylio nhw'n Ein gwylio ni

Cyfarfu aelodau o grwpiau CND Caerdydd a Chaerffili â Menywod ar y Ffordd dros Heddwch a ymwelodd â ffatri arfau Trident Llanisien ar Awst 17eg. Cydweithredodd pawb i gadw gwyliadwraeth 24awr ar glwydi blaen a chefn y ffatri. Ni welodd gwylwyr y glwyd gefn yr un lori yn mynd drwy eu clwyd hwy, gan gyfarfod â neb ond teulu o gwningod yn pori o fewn hyd braich iddynt. Nododd y gwylwyr ar y glwyd flaen lori â symbolau ymbelydredd arni yn mynd i mewn i'r ffatri. Daeth y lori hon i Gaerdydd ar hyd y traffyrdd, gellid tybio, yn cludo wraniwm hesb. Yn y cyfamser, wedi i ni holi, dywedwyd wrthym gan Gyngor Sir De Morgannwg nad yw rheolwyr SAA Llanisien wedi cysylltu â'r Swyddog Cynllunio Argyfwng na'r Prif Swyddog Tân parthed unrhyw drefniadau argyfwng ar gyfer y ffatri.

Defnyddiwyd bwledi a bomiau wraniwm hesb yn ystod Rhyfel y Gwlff. Gollyngwyd deugain tunnell o lwch ocsid wraniwm i'r awyr sydd, os anadlir ef, yn peri salwch ymbelydredd.

Mae mwtantiadau genetig a lewcemia yn gyffredin bellach ymhlith plant ac epilod y rheini a lygrwyd gan ocsid wraniwm yn ystod y rhyfel. Mae gan wraniwm hanner bywyd o 4,500 miliwn o flynyddoedd.

**Os ydych yn byw yng Nghaerdydd neu'n teithio ar yr M4, pam nad ysgrifennwch at eich AS a'r Cynghorydd Sir? Dywedwch wrtho/wrthi ei bod yn hysbys y defnyddir wraniwm hesb yn Llanisien, a gofynnwch sut y cludir ef, a pha fesurau diogelwch a gymerwyd i ddiogelu'r cyhoedd rhag damwain.**



# Prawf arfau niwclear Tsieina – busnes fel arfer?

Ar y 5ed Hydref 1993, mewn pwl o dymer, gellid tybio, wedi iddi fethu yn ei hymgais i lwyfannu'r Chwaraeon Olympaidd yn y flwyddyn 2000, ffrwydrodd Tsieina arf niwclear.

Mae hyn nid yn unig yn rhoi terfyn ar obeithion mai 1993 fyddai'r flwyddyn gyntaf heb brofion arfau niwclaer er 1960, ond gellir hefyd crybwyll gweithred Tsieina fel cyfiawnhad dros ailgychwyn profion arfau niwclear gan y pwerau niwclear eraill.

Mae diwydiannau arfau niwclear y gwledydd hyn – a Phrydain – bellach yn annog ailgychwyn profion. Rhaid i ni, fel aelodau unigol o CND Cymru, ymuno ag aelodau o fudiadau heddwch ym mhedwar ban y byd i annog y gwledydd niwclear i beidio ag ailgychwyn profion arfau.

Rhaid gweld prawf Tsieina yn ei gyd-destun priodol. Bu Tsieina yn aelod chwit-chwat o'r clwb niwclear erioed, gan barhau â phrofion yn yr awyr am 17 flynedd wedi i'r UD, yr Undeb Sofietaidd a Phrydain arwyddo'r Cytundeb Gwahardd Rhannol ar Brofion ym 1963. Mae Tsieina wedi cynnal cyfanswm o 39 o brofion, llai nag unrhyw bwer niwclear arall, a chyfran fechan iawn o'r cyfanswm byd-eang o 1,951 o brofion, a gynhaliwyd yn bennaf gan UDA (942 prawf) a'r Undeb Sofietaidd (715 prawf).

Produced by Pia 0222 222782. Printed by Fingerprints (TU) 0222 482582

# Trawsfynydd – mae'r problemau'n parhau

Mae Atomfa Trawsfynydd yn cau. Comisiynwyd yr Orsaf Ynni Niwclear Magnox gynnar hon ym 1965, a hi yw'r unig orsaf ynni niwclear nad yw wedi ei lleoli ar lan y môr. Defnyddia ddŵr o'r llyn cyfagos. Yn sgîl amryw o broblemau dros y blynyddoedd, caewyd y ddau adweithydd ym mis Chwefror 1991 oherwydd problemau *breuder*.

Ers dwy flynedd bellach bu Nuclear Electric yn arbrofi â gwahanol gynlluniau er sicrhau trwydded gan yr Arolygaeth Niwclear i ailgychwyn yr orsaf. Mae'r ddau adweithydd wedi eu llwytho â thanwydd yn barod i gychwyn ers bron dwy flynedd.

Fodd bynnag, penderfynwyd cau'r orsaf a gwneud gwaith dadgomisiynu arni. Fel gyda phob peth yn ymwneud ag ymbelydredd, nid oes ateb i broblemau dadgomisiynu.

Mae Nuclear Electric wedi cynnig y dylid mynd â'r gwiail tanwydd ymaith. Eir â'r offer cynhyrchu ac offer ategol oddi yno hefyd. Yna, mae'n debyg mai'r bwriad yw adeiladu *rafft* goncrid wrth ochr yr adweithyddion, eu troi ar eu hochr, a'u claddu mewn concrid. Y bwriad wedyn yw eu gadael am 130 o flynyddoedd cyn dadgomisiynu'n llwyr. Drwy wneud hynny, gohirir prif broblemau dadgomisiynu'r adweithyddion, gan adael etifeddiaeth i'n gor- gor- gor- gor-wyrion ac wyresau. Pwy fydd yn talu bryd hynny? Bywydau pwy a beryglir bryd hynny? A arwylir yr adweithyddion yn eu claddgell? Beth pe bai ymbelydredd yn gollwng yn ystod y 130 mlynedd nesaf?

Y dewis arall yw dadgomisiynu'n llwyr yn awr, gan adael safle'r atomfa yn *borfa las* unwaith eto. Ategir y cyngor hwn gan bryder gwirioneddol am broblemau daearegol a hydrolegol diymwad y safle.

Fodd bynnag, yma eto, ceir problemau. Beth am ymbelydredd yn y pridd a dŵr y llyn? Mae dadgymalu adweithydd yn waith peryglus dros ben. Dim ond am gyfnodau byr iawn y gall unrhyw berson weithio y tu fewn i'r adweithydd. Bob tro y trafodir deunydd ymbelydrol, ymbelydrir mwy o ddefnyddiau, gan olygu cynnydd mawr yn y deunydd ymbelydrol. Byddai angen cludo'r holl ddeunydd ymbelydrol i safle arall – Sellafield – i'w ailbrosesu. Mae peryglon ynglŷn â chludo defnyddiau ymbelydrol. Byddai'n gwaethygu problemau Sellafield ei hun.

A yw'r holl gymlethdodau hyn yn dderbyniol yn ein cymdeithas? Nid oes ateb syml i broblemau dadgomisiynu. Mae ymgyrchwyr gwrth-niwclear wedi bod yn pwysleisio'r ffaith hon er y 1950au. Ceisiwyd *dallu'r cyhoedd â gwyddoniaeth* ers deugain mlynedd bob tro y codir materion niwclear, ac mae'r ymdrechion hyn yn parhau.

Fy marn bersonol i, nad yw'n seiliedig ar ddadleuon unrhyw *garfan ffeithiau gwyddonol*, yw y dylem drafod a chludo defnyddiau niwclear cyn lleied â phosib. Rhaid i ni hefyd roi'r gorau i gynhyrchu mwy o ddeunydd ymbelydrol cyn i'r problemau fynd yn fwyfwy amhosib eu datrys.

Mae tro arall yng nghynffon Traws. Mae Nuclear Electric yn ceisio caniatad i leoli llosgydd ar y safle, i losgi gwastraff ymbelydrol lefel isel. Y prif gynnyrch i'w losgi fydd olew ymbelydrol a gedwir ar y safle ar hyn o bryd. A fydd y llosgi yn *dinistrio*'r ymbelydredd? Rwy'n credu bod hon yn enghraifft arall o *gicio'r broblem o gwmpas nes iddi ddiflannu*. Mae gwrthwynebiad lleol i'r cynnig hwn, ond mae gobaith y bydd y prosiect yn creu *swyddi*, enghraifft o *waith ac arian beth bynnag fo'r gost*, unwaith eto.

Pa bryd y sylweddola pobl fod dyfodol y byd a'i boblogaeth yn y fantol, ac na ddylem beryglu'r rhain ymhellach er mwyn enillion tymor byr?

*Rod Stallard*



■ *Ystradgynlais 8 Awst 1993*

# Babi CND Y Trallwng – 'Greenpieces'

Pan benderfynodd CND Y Trallwng drwy fwyafrif i derfynu eu prydles wyth-mlynedd ar stondin y grŵp ym marchnad wythnosol y dref, esgorodd y pedwar aelod a wrthwynebai – gan wrthod plygu i'r drefn ddemocrataidd – ar syniad ymgyrchu newydd. Ar ôl gweithio ers blynyddoedd i gael ein derbyn gan gymuned y farchnad leol, ymddangosai'n wallgof rhoi'r gorau i bresenoldeb cyhoeddus yn y dref ar ôl i ni ennill ein plwyf.

Cyfarfu'r pedwar 'rebel' i drafod sut y gellid defnyddio stondin y farchnad i ategu ac ehangu gwaith eu grŵp CND. Roedd pob math o faterion amgylcheddol yn dechrau derbyn mwyfwy o gydymdeimlad cyhoeddus, felly penderfynwyd canolbwyntio ar ymgyrchoedd 'gwyrdd'. Yn ogystal â gwerthu nwyddau, byddai'r stondin yn darparu gwybodaeth, defnyddiau hyrwyddo, ffurflenni aelodaeth, taflenni a blychau cyfraniadau. Byddai'r stondin drwy hynny yn cynyddu ymwybyddiaeth leol am bedwar mudiad dethol: Cyfeillion y Ddaear, Dolffiniaid Bae Ceredigion, Greenpeace, ac CND Cymru.

Y cam anodd nesaf oedd – enw! Ar ôl gwrthod sawl awgrym ac yfed sawl gwydraid o win, crisialodd y syniad o ddarnau jigso a materion gwyrdd a ffurfio 'Greenpieces'. Roeddem yn fodlon iawn ar hynny.

Ail-negydwyd prydles y stondin a danfonwyd llythyron ar bobl leol a mudiadau yn y dref yn gofyn am nawdd ariannol, a chafwyd ymateb hael. Prynwyd nwyddau a lawnsiwyd 'Greenpieces'.

Mae sawl cefnogydd ffydlon yn cyfrannu cynnyrch ychwanegol fel cacenni, jam a llysiau sydd yn ychwanegiad gwerthfawr i incwm misol y stondin. Bydd nifer o bobl y dref yn ymweld â'r stondin yn rheolaidd i drafod gwahanol bynciau, prynu nwyddau, arwyddo deisebau a rhoi cyfraniadau mewn marchnad sydd, fel arall, yn un gwbl fasnachol.

Mae 'Greenpieces' newydd gwblhau ei blwyddyn gyntaf lwyddiannus. Mae wedi talu'r rhent, rhannu'r elw yn deg rhwng ei gwahanol ddarnau gwyrdd, a gobeithio y bydd yn parhau i wneud cyfraniad bychan – chwedl amcanion CND Cymru – 'i anghenion gwirioneddol y gymuned ddynol'.

*Wendy Drew, Jenny Petch*

## Hau hadau gobaith!

Dywed CND Abertawe wrthym eu bod, am bob noson o ddosbarthu taflenni CND, yn ennill o leiaf ddau aelod newydd.

Beth am oleuo eich cymdogion? Gadewch iddynt wybod nad yw arfau niwclear yn anorfod, gadewch iddynt wybod ein bod ni yma o hyd – gobaith mewn byd sy'n prysur newid.

Os gellwch ddosbarthu taflenni ymhlith eich ffrindiau, yn eich stryd neu dref hyd yn oed, cysylltwch â mi ac fe drefnaf ddanfon deunydd atoch. Croesewir cyfraniadau i helpu gyda'r costau ond nid ydynt yn angenrheidiol.

*Jill Stallard, Nantgaredig, Cynghordy., Llanymddyfri, Dyfed SA20 0LR*

# Cysylltiadau

**Ysgrifennydd Cyffredinol CND Cymru: Jill Stallard.**
Nantgaredig, Cynghordy, Llanymddyfri, Dyfed SA20 0LR.
Ffôn 05505 260

## CYSYLLTIADAU YMGYRCHU

■ **Profion Niwclear, Lledaeniad Niwclear ac Ynni Niwclear:**
**Brian Jones,** 72 Heol Gwyn, Yr Alltwen, Pontardawe SA8 3AN. Tel 0792 830330

■ **Diarfogi a Datblygiad, Addasu Amddiffyn, ac Ymgyrchu yn erbyn y Fasnach Arfau:**
**Mary Jones,** Ffôn 0792 774687

■ **Dadfilwreiddio Cymru:**
**Rod Stallard,** Nantgaredig, Cynghordy, Llanymddyfri, Dyfed SA20 0LR. Ffôn 05505 260

■ **Hedfan Isel:**
**Gillian Metcalf,** Tŷ Yfory, Heol Llanfair, Llanbedr Pont Steffan SA48 8JZ. Ffôn 0570 45576

■ **Ieuenctid CND:**
**Joe Castle,** 25 Aberystwyth Cres., Y Barri CF6 8EH. Ffôn 0446 738020

■ **Masnachu:**
**Jan Henderson.** Ffôn 0792 830330

## MWY O WYBODAETH A SYNIADAU

■ **Cysylltwch â'ch Is-gadeirydd CND Cymru agosaf, os gwelwch yn dda:**

**Gogledd Cymru**
**Dave Andrews,** Ffôn 0978 310491

**De Cymru**
**Ray Davies,** Ffôn 0222 886695

**Canolbarth**
**Medi James,** Aberystwyth Ffôn 0970 832725
**Rod Stallard,** Llanymddyfri Ffôn 05505 260
**Ian Campbell,** Aberystwyth Ffôn 0970 871360

## Newyddion Gweithredu Heddwch

- Bydd y rhifyn nesaf o Newyddion Gweithredu Heddwch yn ymddangos ym mis Ionawr 1994
- Danfoner cyfraniadau at Jane Orrom, 9 Heol Iscoed, Rhiwbeina, Caerdydd CF4 6PA, os gwelwch yn dda
- Croesewir cyfraniadau ar ddisg cyfrifiadur. Cysyllter â Jane/Mike Southern (0222 222782) am fanylion
- Y dyddiad cau ar gyfer copi yw dydd Sadwrn 2 Rhagfyr 1993
- Croesewir pob cymorth gyda'r gwaith golygyddol.

# Dyddiadau

**Tachwedd 5** Deisebau Gwahardd Profion i'w dychwelyd i *Jill Stallard, Nantgaredig, Cynghordy, Llanymddyfri, Dyfed, SA20 0LR*

**Drwy gydol yr Hydref** – Arddangosfa Deithiol Ymgyrch Achos Sylfaenol (gweler tud. 1)

**Tachwedd 6-14** Wythnos Coffadwraeth dros Heddwch. Adeg i gofio nid yn unig y miliynau sydd wedi marw ym mhob rhyfel ond hefyd y rheini sydd yn marw yn awr oherwydd camddefnyddio adnoddau. Adeg i weithio dros heddwch. *Pabiau gwyn ar gael gan Masnachu CND Cymru ar 0792 830330, 50c yr un yn cynnwys post*

**Tachwedd 12-14** Cynhadledd CND Prydeinig. Bradford. Ffoniwch 071 700 4524.

**Tachwedd 14** Sul y Cadoediad. Cysyllter â Tony Augarde P.P.U. am syniadau.

**Tachwedd 14** 1983 Taflegrau Cruise yn cyrraedd Comin Greenham.

**Tachwedd 16** Bruce Kent yn siarad yn yr Eglwys Unedig Ddiwygiedig, Coleg Dewi Sant.

**Tachwedd 20** Cynhadledd Dydd Addysg Heddwch, Ty&*170'r Cyfeillion, Euston Rd., Llundain. Pax Christi 081 300 4612.*

**Tachwedd 19/20** Cynhadledd a Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol CyDd, Siaradwraig Wâdd: Sara Parkin.

**Tachwedd 27** 10fed 'Ffair Werdd' Abertawe. Stondinau, adloniant, bwyd llysieuol blasus. 11am-4pm Adeilad y Gyfnewidfa, Adelaide.

**Rhagfyr 16** Ceilidh Nadolig gyda 'Rough Edge'. CND a CyDd Abertawe. 8pm yn Neuadd Eglwys St James, Heol Walter, Abertawe. £2/£3. Tel. 0792 830330.

**Ionawr/Chwefror 1994** Taith Achos Sylfaenol o Forgannwg Ganol yn dechrau ym Mhenybont ac yn teithio i saith llyfrgell arall. *Cysyllter â Mary ar 0792 774687*

**Bob dydd Gwener;** Gwylnos menywod yn ffatri arfau niwclear SAA Llanisien, Caerdydd (ROF Llanisien gynt) 7-8am. *Cysyllter â Margery ar 0222 753961*

## ENILLWYR Y RAFFL

**Gwobr gyntaf**; Gwyliau yng Nghwba – G.R. Davies, Y Rhondda

**Ail wobr**; Dau docyn a llety ar gyfer Gŵyl Pontardawe – rhif ffôn

**Trydedd wobr**; Dau docyn ar gyfer Gŵyl y Cnapan – B. Gates

**Pedwaredd wobr**; Bwrdd Gardd Trawsnewidiol – D. Gallop

**Pumed wobr**; 'Over Europe' gan Jan Morris (wedi ei arwyddo) – W. Lewis

**Chweched wobr**; Tocyn Llyfrau £25 – I. Torok

**Seithfed wobr**; Tanysgrifiad i 'Peace News' – M. Fogg

**Wythfed wobr**; CDd a gyfranwyd gan Sain – C. Walker

Gwyn eu byd! Diolch i bawb a gymerodd ran yn y raffl a helpu i godi arian yr oedd mawr angen amdano i goffrau CND Cymru.

## ENILLWYR Y RAS HWYAID

Bu'n rhaid dileu'r Ras Hwyaid 'Hwyaden Farw yw Trident' ar Afon Gwy am fod yr afon yn beryglus o uchel. Tynnwyd y rhifau hwyaid arobryn allan o het, a dyma hwy:

**Gwobr 1af**: Mrs Owen, Caernarfon; **2il wobr**: Steffan Lewis, Cumbria; **3edd wobr**: Fiona Parkins, Llambed.

Llynedd, ymwelodd grp o fenywod Shoshone â Chaerdydd. Croesawodd cadeirydd Cyngor Sir De Morgannwg gyfarfod o weithredwyr dros heddwch lle'r eglurodd y menywod ganlyniadau profi dyfeisiadau niwclear ar ei gwarchodfa yn anialwch Nevada.

Mae pobl cenedl y Shoshone, yn enwedig y plant, yn dioddef afiechydon yn gysylltiedig â gwenwyno ymbelydrol ac mae eu cyfradd farwolaeth gyda'r uchaf yn y byd gorllewinol.

Mae grŵp heddwch Caerdydd wedi ymrwymo i ymgyrchu am waharddiad llwyr ar brofi arfau niwclear a fyddai'n cynnwys y safle yn Nevada lle profir arfau Prydeinig. Aethom ati i anrhydeddu ein haddewid i




fenywod y Shoshone drwy gynnal gwersyll heddwch ar lawnt y Swyddfa Gymreig ar ddydd Nagasaki. Gwisgasom yn arddull yr Indiaid a chanu caneuon heddwch a chân Americanaidd Frodorol sydd yn son am yr angen am amddiffyn y Fam Ddaear. Rhoesom lythyr wedi ei arwyddo i'r Swyddfa Gymreig yn mynnu cytundeb gwahardd profion cynhwysfawr, iawndal llawn i genedl y Shoshone, a dadlygru eu tiroedd.

Mae Prydain ar ei phen ei hun ymysg y gwledydd wrth iddi geisio darbwyllo'r UD i ailgychwyn profion yn Nevada. Credwn bod y llywodraeth Brydeinig yn danfon y neges anghywir i'r llu o wledydd llai sydd ar fin sicrhau'r gallu i adeiladu arfau niwclear.

*Ray Davies, Is-Gadeirydd, CND*


# Edrych yn ôl – neu ymlaen?

Llynedd, dadorchuddiwyd cerflun yn Llundain i Syr Arthur 'Bomber' Harris. Roedd hyn yn destun anghydfod mawr, gan mai Harris oedd y dyn a gynlluniodd y cyrchoedd bomio dirlawn ar yr Almaen yn yr Ail Ryfel Byd.

Daeth protestiadau nid yn unig gan fudiad heddwch gwledydd Prydain ond hefyd gan feiri sawl dinas yn yr Almaen, a oedd, yn ddigon naturiol, wedi eu cythruddo gan yr ymgais hon i glodfori dyn yr oedd ei bolisiau wedi peri cymaint o farwolaeth a dinistr. Yr oedd maer Cologne, Norbert Burger, wedi ei gynhyrfu'n neilltuol gan ansensitifrwydd dadorchuddio'r cerflun ar hanner canmlwyddiant bomio Cologne; y cyntaf o'r cyrchoedd mil-awyren a ddinistriodd y ddinas a lladd neu lurgunio miloedd o'i dinasyddion.

Roedd yr anghydfod a achoswyd gan gerflun Bomber Harris yn atgof o'r anghydfod tebyg sy'n codi bob blwyddyn pan fydd y PPU yn cynnig pabiau gwyn i bobl i'w gwisgo ar Sul y Cadoediad. Bu'r pabi gwyn yn symbol heddwch ers trigain mlynedd – er 1933 – ond pery'r Lleng Brydeinig sydd am i bawb gofio â phabi coch a gyda'r math o seremoniau y mae'r Lleng wedi arfer â hwy, i ymosod arnynt.

Felly, sut ddylem ni gofio'r rheini a fu farw mewn rhyfeloedd? Mae llawer ohonom yn anfodlon ar y math o seremoniau coffa traddodiadol a hybir gan



y Lleng Brydeinig, gyda milwyr yn gorymdeithio a saliwtio yn ei lifrau, a seindorf filwrol yn chwarae. Rydym yn anhapus hefyd â chulni'r coffadwriaeth confensiynol sydd yn canolbwyntio ar feirwon gwledydd Prydain yn unig. Dylem gofio dioddefwyr rhyfel o bob gwlad – a'r rheini a anafwyd neu a amddifadwyd gan ryfel. Rhaid inni gofio hefyd y rheini a wneud yn ddigartref gan ryfel, fel yn y gyn-Iwgoslafia. Canlyniad rhyfel, gan mwyaf, yw ffoaduriaid.

Uwch law popeth, mae'r mathau presennol o goffadwriaeth yn rhy aml yn awgrymu ein bod yn fodlon gwneud yr un camgymeriadau eto. Dywed llawer o seremoniau 'Byth eto!' tra'n dangos, yn eu gêr milwrol, bod y rheini sy'n cymryd rhan yn barod i fynd i ryfel yn y dyfodol. A ninnau'n rhan o Ewrop unedig bellach, oni ddylem fod yn edrych ymlaen at ffyrdd newydd o ddatrys gwrthdaro, a diarddel militariaeth y gorffennol?

Dylem gofio'r rheini a fu farw ac a ddioddefodd yn rhyfeloedd y gorffennol – ond rhaid defnyddio'r coffadwriaeth hwn fel gwers at y dyfodol. Mae'r rheini nad ydynt yn dysgu gan hanes wedi eu condemnio i ailadrodd ei gamgymeriadau. Symbol yw'r pabi gwyn ein bod yn bwriadu gweithio dros heddwch yn y dyfodol – ac adeiladu sefydliadau heddwch ledled Ewrop. Ni ellir gwneud hynny drwy gadw yn fyw yr hen gasineb a'n rhannai.

Wrth adrodd ar ddadorchuddio cerflun Bomber Harris, nododd y papur-newydd *Die Welt* i rai o'r dorf ganu 'For he's a jolly good fellow' er clod i Harris. Sut fyddem ni'n teimlo pe darllenem fod Almaeniaid wedi bod yn canu bod Goering yn 'jolly good fellow'?

Cymharer yr agwedd ôl-edrychol hon â safbwynt maer Cologne. Wrth ysgrifennu i ddiolch i'r PPU am drefnu protest ger cerflun Harris, dywedodd Norbert Burger: 'Fy nyletswydd hunan-amlwg i yw cofio pob dioddefwr, gan gynwys dioddefwyr braw-fomio'r Natsiaid ym Mhrydain. Rhaid i'm neges i chi fod yn un o gymod a chyfeillgarwch.'

*Tony Augarde*

# E. P. Thompson ... arweiniad i'r Mudiad Heddwch

Cofir Edward Thompson yn gynnes yng Nghymru am ei gyfraniad mawr i'r Mudiad Heddwch a'n hanogodd ni i greu cysylltiadau tramor.

Bu'n ymwelydd cyson â gogledd Cymru er y 1950au cynnar. Ym 1982 daeth i Flaenau Ffestiniog i annerch gyl o 3000 o bobl. Roedd hynny'n union cyn mynd ar daith bwysig i Hwngaria; ysgrifennodd am y profiad hwnnw, '... fe'i gwnaethom yn glir ein bod am siarad ag unrhywun swyddogol neu answyddogol, a oedd â'r un nod â ni ... fe'i cefais yn llawer haws i fynd i Hwngaria a dychwelyd nag y mae weithiau i gael mynediad i'r Unol Daleithau! Roedd cefnogaeth anghyffredin a chynyddol ymhlith pobl ifanc a oedd, lawer ohonynt, yn gwisgo bathodynau CND neu rai heddwch 'gorllewinol' eraill.' Y flwyddyn ganlynol, daeth yn ôl i 'Stiniog i ddweud wrthym am yr ymweliad ac i hyrwyddo cysylltiadau rhwng plant ysgol uwchradd o'r ddwy wlad.

Yn ystod hanner cyntaf y 1980au siaradodd ym mhob un o Wyliau Heddwch Meirionnydd a gynhaliwyd mewn gwahanol drefi yn y sir. Roedd yn ymwybodol o'r angen am oresgyn y rhaniad dwyrain-gorllewin; credai hefyd ym mhwysigrwydd mawr mudiadau heddwch cenedlaethol i ddiweddu'r Rhyfel Oer.

Mor gynnar â 1980 ysgrifennodd 'Rhaid i ni ymgyrchu i ddatgysylltu mwy a mwy o wledydd Ewropeaidd oddi wrth strategaeth niwclear y pwerau mawr. Ein nod yw creu yn Ewrop ardal fythol gynyddol yn rhydd o arfau niwclear. Rhaid ymgyrchu ar bob lefel – eglwysi, y maes chwarae, undebau llafur, deallusion – ac yn sicr rhaid iddo gynnwys ymrestru mudiadau poblogaidd, yn ogystal âg ymweliadau cyfnewid rhyngwladol lle gellir mynegi cydgadernid rhwng ánghydffurfwyr' Dwyrain a Gorllewin Ewrop. Gall cenhedloedd dalu gwrogaeth lac i'r naill gynghrair neu'r llall tra'n gwrthod caniatad i leoli taflegrau niwclear ar eu tir eu hunain. Ond rhaid gwrthod. Ac o fewn pob cenedl, rhaid i gael gwared o wersylloedd niwclear o'i thiriogaeth fod yn un o brif amcanion y mudiad poblogaidd.'

Hanfod syniadaeth a gweithgaredd ymarferol E.P. Thompson oedd pobl gyffredin yn cyfuno i greu hanes: '... mae byd y gweleidyddion, Dwyrain a Gorllewion, wedi mynd yn fyddar i resymeg, felly rhaid i ni ddechrau ar y gwaelod unwaith eto.'

Cryfder y mudiad gwrth-niwclear yw ei amrywiaeth; nid yw'n perthyn i un adran neu ddosbarth neilltuol ac roedd Edward Thompson yn gwbl ymwybodol o hynny. Dim ond drwy uno'r holl elfennau gwahanol y gallwn lwyddo i drechu'r cymhlyg diwydiannol/militaraidd. Fel yr ysgrifennodd yn 'Beyond the Cold War', 'Y cyfle yw nawr, tra bod ymwybyddiaeth uwch o berygl yn effeithio ar filiynau. Gallwn ymateb i'r argyfwng hwn ddim ond drwy alw ar adnoddau i lefel megis eiddo symudiadau gwleidyddol neu grefyddol gorffewnnol Ewrop ... ond y tro hwn, rhaid iddo gyfodi nid yn sgil rhyfel a gormes ond cyn i'r rhain ddigwydd. Rhaid i'r Ddynolryw aeddfedu o'r diwedd. Rhaid i ni gydnabod mai'r Arall yw ni ein hunain.'

Mae'r Rhyfel Oer ar ben, ond yr ydym yn dal i fyw mewn amseroedd ansicr iawn. Daw trasediau Iwgoslafia a mannau eraill i aflonyddu arnom. Dyma'r adeg i ymrwymo i'r hyn a alwodd Edward Thompson unwaith yn Drydedd Ton CND, y don a fydd yn gwaredu'r byd o arfau niwclear yn derfynol.

Bu farw E.P. Thompson ym 1993.

*Bob Cole*
*Rhoda Jones*